Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Adolygiad o’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o’r Senedd

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynigion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o ran diwygio'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o’r Senedd.

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o’r Senedd (y Cod) yn nodi'r safonau ymddygiad personol a ddisgwylir gan yr holl Aelodau. Os oes unrhyw un yn credu nad yw Aelod wedi bodloni'r safonau ymddygiad hyn, gall wneud cwyn i’r Comisiynydd Safonau annibynnol, sy’n gyfrifol am ymchwilio i achosion honedig o dorri’r Cod.

Cytunwyd ar y Cod blaenorol ar ddechrau'r chweched Senedd ym mis Mai 2021. Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) i adolygu'r Cod cyn y seithfed Senedd, gan adeiladu ar waith o amgylch yr agenda urddas a pharch a'i adroddiad ar ‘Urddas a Pharch: cyflwyno mwy o annibyniaeth a chymorth i’r broses gwyno yn y Senedd’. Nod y Pwyllgor oedd sicrhau bod y Cod yn adlewyrchu safonau cyfoes mewn bywyd cyhoeddus a'i fod yn berthnasol i'r cyd-destun gwleidyddol, cyfansoddiadol a diwylliannol y mae Aelodau o’n Senedd esblygol yn gweithredu ynddo.

# 1. Cefndir y Cod Ymddygiad ac adolygiad y Pwyllgor

**1.** Mae'r Cod Ymddygiad (y Cod) yn ddogfen sy'n nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau o'r Senedd. Mae'r Cod hwn yn gymwys i bob Aelod o'r Senedd a rhaid i Aelodau gydymffurfio ag ef. Mae'n darparu'r ethos agored ac atebol sy'n angenrheidiol i atgyfnerthu hyder y cyhoedd yn Aelodau o'r Senedd ynghylch y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyhoeddus pwysig.

**2.** Mae gan y Cod awdurdod statudol o dan Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, a sefydlodd y Comisiynydd Safonau annibynnol (y Comisiynydd). Os bydd Aelod yn methu â chydymffurfio â'r Cod, gellir ei adrodd i'r Comisiynydd, a fydd yn ymchwilio i'r gŵyn. Os bydd y Comisiynydd yn canfod bod y Cod wedi'i dorri, bydd yn adrodd y mater i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor).

**3.** Nid yw Codau Ymddygiad yn bethau cyffredinol, ond yn ystod y degawdau diwethaf maent wedi dod yn gyffredin mewn seneddau ledled y byd, gyda'r nod yn aml o fynd i'r afael â cholli ymddiriedaeth y cyhoedd mewn seneddwyr. Yn nodweddiadol, mae codau ymddygiad yn nodi sut mae disgwyl i seneddwyr ymddwyn. Maent yn elfen allweddol mewn systemau safonau seneddol, ynghyd â:

- rheolau gweithdrefn (Rheolau Sefydlog),
- dyfarniadau gan y Llefarydd neu'r Llywydd,
- cofrestr buddiannau,
- rheolau sy'n ymwneud â gwariant, lwfansau a rhyngweithio â lobïwyr,

a

- systemau safonau grwpiau pleidiau eu hunain.

**4.** Prif ddiben y Cod yw helpu ac arwain Aelodau i gynnal safonau ymddygiad priodol wrth gyflawni eu rolau, yn hytrach na chyfyngu ar Aelodau yn y ffordd y maent yn gweithredu. Nodwedd allweddol wrth ddefnyddio a gorfodi'r Cod yw meithrin a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn eu cynrychiolwyr etholedig.

## Sut y cynhaliodd y Pwyllgor yr adolygiad

**5.** Wrth ail-ddrafftio'r Cod a'r gweithdrefnau cysylltiedig, ceisiodd y Pwyllgor wneud y canlynol:

- darparu mwy o eglurder o ran y safonau a ddisgwylir gan yr Aelodau;
- gwella'r Cod ymhellach mewn perthynas â materion Urddas a Pharch, gan adeiladu ar ei waith drwy gydol y chweched Senedd.

**6.** Er mwyn gwneud hyn, gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- myfyrio ar ei brofiadau ei hun, ac argymhellion adroddiadau'r Comisiynydd Safonau, yn ystod y Senedd hon;
- siarad â nifer o randdeiliaid;
- ymgynghori ag Aelodau o'r Senedd
- cynnal ymchwiliadau drwy gydol tymor y Senedd hwn, ar faterion megis atebolrwydd Aelodau unigol, Urddas a Pharch, ac ati.

### Ymgynghoriad cyhoeddus

**7.** Ar 16 Rhagfyr 2025, lansiodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus ar God Ymddygiad wedi'i ailddrafftio, gan ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid. Gwahoddodd y Pwyllgor yn benodol farn ar ddiwygiadau i reolau o fewn y cod, yn benodol p'un a fyddai'r newidiadau'n helpu i wella tryloywder ac atebolrwydd.

**8.** Mae rhestr lawn o ymatebion i'r ymgynghoriad i'w chael yn Atodiad A

# 2. Crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r cod ymddygiad

**9.** Mae'r Pwyllgor wedi llunio cod wedi'i ailddrafftio, yn dilyn ei ymgynghoriad ar yr Adolygiad o’r Cod. Mae'r cod hwn yn parhau i gynnwys dwy brif elfen:

a. Nifer o egwyddorion ymddygiad cyffredinol y mae'n rhaid i Aelodau eu dilyn ac sy'n deillio o'r “egwyddorion Nolan” sefydledig; a

b. Rhestr o Reolau sy'n nodi rheolau ymddygiad clir a chryno y mae'n rhaid i Aelodau eu dilyn.

**10.** Mae gan y Cod awdurdod statudol o dan Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, a sefydlodd y Comisiynydd Safonau annibynnol (y Comisiynydd). Os bydd Aelod yn methu â chydymffurfio â'r Cod, gellir ei adrodd i'r Comisiynydd, a fydd yn ymchwilio i'r gŵyn. Os bydd y Comisiynydd yn canfod bod y Cod wedi’i dorri, bydd yn adrodd y mater i’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor).

**11.** Mae dyletswydd ar y Pwyllgor i ystyried unrhyw faterion o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol. Cytunir ar y Cod gan y Senedd yn dilyn cynigion gan y Pwyllgor. Y bwriad yw y bydd Cod Ymddygiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Senedd cyn diwedd y chweched Senedd fel ei fod yn berthnasol o ddiwrnod cyntaf y Seithfed Senedd.

### Urddas a Pharch

**12.** Mae’r Pwyllgor, drwy ei waith ar Urddas a Pharch drwy gydol tymor y Senedd hwn, wedi diwygio'r cod yn unol â hynny yn seiliedig ar yr argymhellion a ganfu drwy’r gwaith hwn.

**13.** Yn ystod y gwaith hwn, clywodd y pwyllgor dystiolaeth yn tynnu sylw at yr angen am ddisgwyliadau cliriach ynghylch ymddygiad rhyngbersonol o fewn y Senedd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid, er bod y Cod presennol yn darparu sylfaen, nad yw bob amser yn cynnig digon o eglurder na sicrwydd i'r rhai sy'n profi neu'n arsylwi ymddygiad sy'n is na'r safonau a ddisgwylir.

**14.** Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod cryfhau'r Cod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Mae'r diwygiadau y cytunwyd arnynt i'r rheolau o fewn y cod yn cyflwyno darpariaethau mwy penodol yn

ymwneud ag urddas a pharch, gan atgyfnerthu'r disgwyliad y bydd pob unigolyn yn cael ei drin â chwrteisi, ystyriaeth a phroffesiynoldeb.

**15.** Drwy ymgorffori'r egwyddorion hyn yn fwy cadarn yn y Cod, mae'r Pwyllgor yn anelu at greu fframwaith cliriach a mwy cadarn sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar, yn annog ymddygiad cadarnhaol, ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd problemau'n gwaethygu.

## Y Bil Atebolrwydd Aelodau

**16.** Mae penderfyniadau terfynol y Pwyllgor hefyd wedi cael eu llunio gan y cyd-destun deddfwriaethol ehangach, yn benodol y Bil Atebolrwydd Aelodau.

**17.** Fel newid sylweddol i'r dirwedd safonau, mae'r Bil yn cyflwyno system ffurfiol o adalw Aelodau etholedig ac yn rhoi sail statudol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Mae'r datblygiadau hyn yn atgyfnerthu difrifoldeb y ffordd y mae'r Senedd yn ymdrin ag atebolrwydd ac ymddygiad moesegol.

**18.** Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, mae'r Pwyllgor wedi sicrhau bod y diwygiadau i'r Cod Ymddygiad yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cryfach a nodir yn y Bil, gan ddarparu fframwaith cydlynol a diweddar sy'n cefnogi tryloywder a hyder y cyhoedd. Mae integreiddio'r diwygiadau deddfwriaethol hyn gyda gwaith y Pwyllgor ei hun ar urddas a pharch yn sicrhau bod y Cod nid yn unig yn adlewyrchu canfyddiadau ein hymchwiliad ond hefyd y cyfrifoldebau sy'n esblygu a roddir ar Aelodau fel cynrychiolwyr etholedig.

## Egwyddorion y Cod

**19.** Er nad oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod i egwyddorion cyffredinol y Cod Ymddygiad, mae'r diwygiadau a gynigiwyd i'r rheolau yn adlewyrchu'r trafodaethau ehangach ar safonau o fewn bywyd cyhoeddus.

## Rheolau yn y Cod

**20.** Mae'r Cod yn cynnwys set o reolau y gellir eu gorfodi sydd wedi'u geirio'n gryno ac yn eglur, i alluogi Aelodau i ddeall yn glir beth a ddisgwylir ganddyn nhw er mwyn cynnal safonau uchel o ymddygiad personol, a'u galluogi i gael eu dwyn i gyfrif pan na fydd eu hymddygiad yn bodloni'r safonau hynny. Mae rhai o'r rheolau sydd wedi'u cynnwys yn y cod wedi'i ailddrafftio yn newydd ar gyfer y Seithfed Senedd – mae'r rhain wedi'u nodi isod.

**21.** Amlinellwyd saith cynnig yn ymgynghoriad y Pwyllgor ar gyfer diwygio'r rheolau.

- Mae Rheol 2 wedi'i rhannu'n ddwy reol gyda gofynion cliriach: Ni ddylai Aelodau wneud datganiadau camarweiniol yn fwriadol, a rhaid iddynt gywiro datganiadau sy'n ffeithiol anghywir ar unwaith. Mae hyn yn cryfhau disgwyliadau ynghylch gonestrwydd ac yn egluro sut y bydd twyll bwriadol yn cael ei asesu.
- Mae Rheol 23 (19 gynt) bellach yn nodi mai dim ond tra bo cwyn yn cael ei hymchwilio y mae cyfrinachedd yn berthnasol. Unwaith y bydd cwyn wedi'i chwblhau neu ei gwrthod, gall Aelodau drafod y canlyniad, gan sicrhau y gallant ymateb yn gymesur i honiadau cyhoeddus.
- Mae rheol newydd yn cadarnhau bod Aelodau'n bersonol gyfrifol am yr holl gynnwys sy'n cael ei bostio (megis ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol) yn eu henw, boed wedi'i bostio ganddynt hwy eu hunain neu gan staff sy'n gweithredu ar eu rhan. Mae hyn yn mynd i'r afael â bylchau a nodwyd mewn achosion diweddar ac yn atgyfnerthu atebolrwydd am wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau o dan enw Aelod.
- Mae rheol newydd wedi'i chreu i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau weithredu fel cyflogwyr cyfrifol. Bydd y rheol hon yn cael ei chefnogi gan ganllawiau sy'n disgwyl iddynt gynnal Codau Ymddygiad staff, Llawlyfrau Staff cynhwysfawr, a mynychu hyfforddiant urddas a pharch. Gallai diffyg presenoldeb gael ei ystyried yn berthnasol mewn achosion safonau yn y dyfodol.
- Mae'r broses ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch datganiadau o fuddiant wedi'i hegluro. Er bod ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r Llywydd neu'r Cadeiryddion, dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â datganiadau o fuddiant yn uniongyrchol at y Comisiynydd bellach oherwydd eu cymhlethdod a'r angen am ymchwiliad ffurfiol.
- Mae Rheol 26 (22 gynt) wedi'i hehangu i'w gwneud yn gliriach na ddylai Aelodau annog, dylanwadu ar, na chymell unrhyw berson i wneud cwyn, nac atal unrhyw berson rhag rhoi tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys torri'r Cod os bydd Aelod yn defnyddio Cytundeb Peidio â Datgelu i atal staff neu gyn-aelodau o staff rhag codi pryderon neu ddarparu tystiolaeth am ymddygiad yr Aelod.

- Mae rheol 14 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgan buddiannau perthnasol neu gofrestradwy nid yn unig yng ngweithredoedd y Senedd ond hefyd wrth wneud sylwadau y tu allan i fusnes ffurfiol, megis cyfathrebu â Gweinidogion, swyddogion cyhoeddus, neu eraill sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus. Mae hyn yn cyd-fynd yn agosach â'r arfer mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU ac yn cryfhau tryloywder yn ymrwymiadau allanol yr Aelodau.

**22.** Ni fwriedir i'r rheolau gael eu defnyddio i farnu sut mae Aelodau'n cyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig, nac fel rhwystr i fynegi barn wleidyddol.

**23.** Mae'r egwyddorion cyffredinol yn gymorth i ddehongli'r rheolau penodol a gellir eu cymhwyso'n uniongyrchol hefyd lle nad yw ymddygiad yn syrthio o dan unrhyw un o'r rheolau penodol, ond er hynny nad yw'n bodloni'r safonau a ymgorfforir yn yr egwyddorion cyffredinol.

## Canllawiau i'r Cod

**24.** Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi datblygu canllawiau, sy'n ceisio darparu eglurder ac esboniad o'r Cod i'r Aelodau, eu staff a'r cyhoedd. Er na ellir ei orfodi ynddo'i hun gan nad yw'n rhan ffurfiol o'r Cod, mae'n nodi'r rhwymedigaethau a'r cyfrifoldebau o dan y Cod yn fanylach, gyda sylwebaeth wedi'i hanelu at gynorthwyo'r rhai sy'n ceisio dehongli'r Cod ei hun. Mae'r canllaw yn ddogfen 'fyw' a fydd yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen. At hynny, all y Comisiynydd Safonau ystyried ei darpariaeth.

**25.** Mae'r canllawiau hefyd yn anelu at helpu'r rheini a allai fod eisiau cwyno am Aelod i ddeall materion a gwmpesir y Cod, ac yw'r Cod wedi'i dorri neu beidio.

**26.** Mae copi o'r canllawiau wedi'i atodi yn Atodiad B.

## Argymhellion

Argymhelliad 1.Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn cymeradwyo'r Cod Ymddygiad diwygiedig a bod y Cod diwygiedig yn dod i rym o ddechrau'r seithfed Senedd ymlaen

Argymhelliad 2.Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn nodi'r canllawiau i'r Cod sydd wedi'u hatodi yn Atodiad B.

# Atodiad A: Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Douglas Bain, Comisiynydd Safonau
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Elect Her
- FDA, Undeb Llafur
- Dr Alex Barber a Dr Sean Cordell, Y Brifysgol Agored

# Atodiad B: Canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd

Senedd Cymru

# Canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd

Diweddarwyd: 18 Mawrth 2026 i ddod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

# Cynnwys


Rhagymadrodd ..... 13

Rhan 1: Cyflwyniad a Statws y Cod ..... 14

- Y defnydd o'r Cod mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau ..... 14
- Y defnydd o'r Cod mewn perthynas â bywydau preifat Aelodau. ..... 15
- Penderfyniadau gan y Llywydd neu Gadeirydd Pwyllgor ..... 15
- Y defnydd o'r Cod mewn perthynas â rolau Gweinidogol ..... 17
- Y defnydd o'r Cod mewn perthynas â pherfformiad Aelodau ..... 18
- Y defnydd o'r Cod mewn perthynas â datgan a chofrestru buddiannau ..... 18

Rhan 2: Dehongli ac Egwyddorion Cyffredinol ..... 20

- Perthynas Rheolau ac Egwyddorion y Cod ..... 20
- Yr Egwyddor Anhunanoldeb ..... 20
- Yr Egwyddor Uniondeb ..... 21
- Yr Egwyddor Gwrthrychedd ..... 22
- Yr Egwyddor Atebolrwydd ..... 22
- Yr Egwyddor Bod yn Agored ..... 23
- Yr Egwyddor Gonestrwydd ..... 23
- Yr Egwyddor Arweinyddiaeth ..... 27

Rhan 3 - Safonau Ymddygiad Personol Aelodau ..... 29

- Rheol 1 ..... 29
- Rheol 2 a 3 ..... 29
- Rheol 4 ..... 30
- Rheol 5 ..... 30
- Rheol 6 ..... 31
- Rheol 7 ..... 31
- Rheol 8 ..... 32

Rheol 9 .... 32
Rheol 10 .... 33
Rheol 11 .... 33
“Rheol 12 .... 34
Rheol 13 .... 35
Rheol 14 .... 35
Rheol 15 .... 36
Rheol 16 .... 36
Rheol 17 .... 37
Rheol 18 .... 38
Rheol 19 .... 38
Rheol 20 .... 39
Rheolau sy’n gysylltiedig â threfn Safonau’r Senedd (Rheolau 21-27) .. 40

## Rhagymadrodd

Mae’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o’r Senedd (y Cod) yn nodi’r Rheolau a’r Egwyddorion y mae’n rhaid i Aelodau o’r Senedd gadw atynt. Cytunodd y Senedd ar y Cod ar 18 Mawrth 2026. Cyfrifoldeb personol Aelod yw deall ei rwymedigaethau o dan y Cod a gweithredu mewn ffordd sy'n bodloni'r safonau ymddygiad uchel sy’n ofynnol gan Aelodau o’r Senedd.

Prif ddiben y Cod yw helpu ac arwain Aelodau i gynnal safonau ymddygiad priodol wrth gyflawni eu rôl, yn hytrach na chyfyngu ar Aelodau yn y ffordd y maent yn gweithredu. Nodwedd allweddol wrth ddefnyddio a gorfodi'r Cod yw meithrin a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn eu cynrychiolwyr etholedig.

Mae Aelodau’n gyfrifol am sicrhau eu bod hwy eu hunain a’u staff yn ymwybodol o gynnwys y Cod a'r holl ganllawiau cysylltiedig a gwybodaeth ychwanegol. Disgwylir i Aelodau a'u staff hefyd ymgymryd â hyfforddiant - gan gynnwys cyrsiau gloywi. Nid yw anwybodaeth o ddarpariaethau’r Cod yn rheswm dilys

dros eu torri a gellir ystyried bod diffyg presenoldeb yn berthnasol mewn materion a ddygir gerbron y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Nod y canllawiau hyn (a gyhoeddwyd ar 11 Mawrth 2026) yw darparu eglurder ac esboniad o'r Cod i Aelodau, eu staff a'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi cytuno ar y canllawiau, ac maent wedi'u cyhoeddi o dan baragraff 5 o'r Cod.[1] O'r herwydd, ni ellir gorfodi'r canllawiau hyn, ond gall Comisiynydd Safonau'r Cynulliad ('y Comisiynydd') roi ystyriaeth iddynt wrth ystyried cwynion. Dim ond i gwynion a lywodraethir gan y Cod fel y cytunwyd gan y Senedd ar 18 Mawrth 2026, a ddaeth i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd, y maent yn gymwys.

Diben y canllawiau yw helpu Aelodau a'u staff i ddeall eu priod rwymedigaethau a'u cyfrifoldebau o dan y Cod. Fodd bynnag, ni all gwmpasu pob amgylchiad y gellir ei ddychmygu.

Gall Aelodau gyfeirio eu methiant eu hunain i gydymffurfio â'r Cod (neu ddarpariaeth berthnasol arall) at Gomisiynydd Safonau'r Senedd ond dim ond os yw'r Aelod yn cyfaddef i'r methiant i gydymffurfio pan gaiff y cyfeiriad ei wneud. Yna, Comisiynydd Safonau'r Senedd fydd yn gyfrifol am wneud dyfarniad ffurfiol bod y materion y cyfaddefwyd iddynt yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio â'r Cod.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn ceisio helpu'r rhai a allai fod eisiau cwyno am Aelod i ddeall a all achos o dorri'r Cod fod wedi digwydd ai peidio.

## Rhan 1: Cyflwyniad a Statws y Cod

### Y defnydd o'r Cod mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau

Mae'r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *"mae'r Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau fel arfer yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau yn ystod Cyfarfodydd Llawn y Senedd ac mewn pwyllgorau trwy ddefnyddio Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â chynnal trefn yn ystod trafodion."*[2]

Mae hyn yn adlewyrchu, er bod yn rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r Cod mewn lleoliadau o'r fath, cyfrifoldeb y Llywydd a chadeiryddion y pwyllgorau fydd mynd

[1] Y Senedd, Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd (Cod Ymddygiad), paragraff (Para) 5.
[2] Y Cod Ymddygiad, Para 3

i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi o ran ymddygiad ar unwaith. Fodd bynnag, os bydd y Llywydd neu gadeirydd pwyllgor o'r farn, wrth ymdrin â mater o'r fath, bod angen ymchwilio ymhellach neu'n fanylach i ymddygiad Aelod, gallant ddod i'r casgliad fod Comisiynydd Safonau'r Senedd yn fwy cymwys i gynnal ymchwiliad o'r fath a chyfeirio'r mater at y Comisiynydd yn unol â hynny.[3] Os yw rhywun am wneud cwyn am ymddygiad Aelod yn ystod Cyfarfod Llawn neu mewn cyfarfod pwyllgor, dylai gyfeirio'r gŵyn (yn y drefn honno) at y Llywydd neu gadeirydd pwyllgor perthnasol.

## Y defnydd o'r Cod mewn perthynas â bywydau preifat Aelodau.

Mae'r Cod yn nodi ei fod:

> *"yn gymwys i Aelodau sy'n dal swydd gyhoeddus Aelod o'r Senedd bob amser, gan gynnwys ym mywydau personol a phreifat yr Aelodau."*.[4]

Mae hyn yn darparu bod y Cod yn berthnasol – ac y gellir gwneud cwyn — mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau mewn unrhyw gyd-destun, ni waeth a yw'n ymwneud â bywyd cyhoeddus neu breifat Aelod.

Mae'r Cod hefyd yn berthnasol i ddefnydd yr Aelodau o'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y Chweched Senedd, cynyddodd nifer y cwynion yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol yn sylweddol. O'r herwydd, mae'r Cod yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan Aelodau yn y maes hwn, gan gynnwys; bod yn gyfrifol yn llwyr am wybodaeth a ryddheir yn eu henw – boed yn cael ei chyhoeddi gan yr Aelodau eu hunain, neu staff sy'n gweithredu ar eu rhan (Rheol 20); a chywiro/tynnu'n ôl gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol a gyhoeddwyd neu a ailbostiwyd ganddynt ar y cyfryngau cymdeithasol (Rheol 3).

## Penderfyniadau gan y Llywydd neu Gadeirydd Pwyllgor

Mae'r Cod yn nodi nad yw'n berthnasol:

> *"i'r Llywydd neu gadeirydd pwyllgor mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau a roddir gan ddeddfiad, y Senedd neu'r Rheolau Sefydlog."*.[5]

[3] Mae gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd bwerau ymchwilio o dan adrannau 11-18 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.
[4] Y Cod Ymddygiad, Para 6.
[5] Y Cod Ymddygiad, Para 7.

Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn darparu bod penderfyniadau a wneir gan y Llywydd neu Gadeirydd Pwyllgor mewn perthynas â materion penodol a gaiff eu rheoleiddio gan Reolau Sefydlog – sy’n cynnwys cynnal trefn yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn neu yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau – yn derfynol. Mae’r Rheolau Sefydlog hefyd yn darparu dull i’r Senedd ddiswyddo Llywydd neu Gadeirydd Pwyllgor. Gan fod yn rhaid i’r Comisiynydd gynnal ymchwiliadau yn unol â darpariaethau’r Rheolau Sefydlog, effaith y darpariaethau hyn yw na all y Comisiynydd ymchwilio i gwynion am benderfyniadau’r Llywydd na Chadeirydd Pwyllgor pan fo’n gweithredu’n gyfan gwbl yn rhinwedd y swydd honno.

## Y defnydd o’r Cod mewn perthynas â rolau Gweinidogol

Mae’r Cod yn nodi:

> *“nid yw'r Cod yn gymwys: pan fo Aelod yn gweithredu'n gyfan gwbl yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru neu fel Cwnsler Cyffredinol a bod ei ymddygiad yn cael ei lywodraethu gan God Gweinidogion Cymru fel y'i diffinnir yn adran 8(2)9(a) o'r Mesur.”*.[6]

Mae hyn yn adlewyrchu na all Comisiynydd Safonau'r Senedd ystyried cwyn ynghylch ymddygiad Aelod sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog (fel y'i diffinnir yn y Cod) a byddai’n gorfod cael ei gwrthod..[7] Fodd bynnag, gall cwynion o'r fath gael eu gwneud yn erbyn cod ymddygiad gwahanol: **Cod Gweinidogion Cymru**. Mae Cod Gweinidogion Cymru yn nodi y bydd y Prif Weinidog yn cyfeirio cwynion am ymddygiad Gweinidogion at Gynghorydd Annibynnol i’w hystyried a rhoi cyngor arnynt, oni bai bod y Prif Weinidog yn fodlon y gellir ymateb i’r cwynion mewn modd mwy uniongyrchol neu arferol (er enghraifft pan fo tramgwydd diamheuol, neu pan nad oes achos argyhoeddiadol i’w ateb neu pan fernir bod y cwynion yn rhai o natur flinderus neu ddibwys).

Os oes gan rywun gŵyn bod un o Weinidogion Llywodraeth Cymru wedi torri Cod Gweinidogion Cymru, dylent ysgrifennu at y Prif Weinidog yn:

Llywodraeth Cymru
Pumed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

YP.prifweinidog@llyw.cymru

[6] Y Cod Ymddygiad, Para 7.
[7] Nid oes gan Gomisiynydd Safonau’r Senedd yr awdurdod i fynegi unrhyw farn ar faterion sy’n ymwneud â Chod Gweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 8 Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.

## Y defnydd o’r Cod mewn perthynas â pherfformiad Aelodau

Mae’r Cod yn nodi nad yw’n berthnasol:

> “*mewn perthynas â safon y gwasanaeth a'r canlyniadau a gafwyd gan Aelod.”*.[8]

Mae hyn yn adlewyrchu nad yw'r Cod yn ymwneud â pha mor ‘effeithiol’ y canfyddir y mae Aelod yn cyflawni ei rôl, p'un a yw hynny o ran pa mor rheolaidd y mae'n cynnal cymorthfeydd, eu gwerth fel eiriolwr, eu methiant i ymateb i ohebiaeth neu eu cyfraniadau yn y Cyfarfod Llawn ac yng nghyfarfodydd pwyllgorau.

Fodd bynnag, mae'r Cod yn berthnasol o hyd mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau wrth gyflawni eu swyddogaethau. Er enghraifft, pe bai Aelod yn defnyddio iaith ymosodol gydag aelod o'r cyhoedd wrth gynnal cymhorthfa, gellid codi cwyn gan fod ymddygiad o'r fath yn torri'r Cod.

Mewn achosion eithafol, gallai Aelod sy’n anwybyddu cais am gymorth ar bwrpas, heb reswm rhesymol, weithredu’r Egwyddor Parch, ac felly Rheol 1.

## Y defnydd o’r Cod mewn perthynas â datgan a chofrestru buddiannau

Mae’r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *“rhaid i Aelodau gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd, gan gynnwys ei Rheolau Sefydlog sy’n ymwneud â datgan a chofrestru buddiannau ariannol a buddiannau eraill ac aelodaeth o gymdeithasau…Am y rheswm hwn, nid yw'r Cod yn cynnwys Rheol benodol ar ddatgan a chofrestru buddiannau o'r fath.*.[9]

Er gwybodaeth, mae’r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gofrestru yn y Gofrestr Buddiannau Aelodau yr holl fuddiannau perthnasol (fel y'u diffinnir yn yr **Atodiad i Reol Sefydlog 2**). Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd y buddiannau y gellir yn rhesymol feddwl sy’n dylanwadu ar eu gweithredoedd. Mae’r Rheolau Sefydlog hefyd yn darparu ar gyfer Cofnodi Cyflogaeth Aelodau’r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn, Cofnodi’r Amser y

[8] Y Cod Ymddygiad, Para 7.
[9] Y Cod Ymddygiad, para 4.

bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy a Chofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau..[10]

Nodir canllawiau manwl ar ofynion Rheolau Sefydlog o'r fath yn y canlynol:

- Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill;
- Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofnodi cyflogaeth aelodau'r teulu gyda chymorth arian y Comisiwn.

Dylid cyflwyno cwynion sy'n ymwneud â datgan neu gofrestru buddiannau i'r Comisiynydd Safonau yn y lle cyntaf. Mae'r cwynion hyn yn ôl-weithredol eu natur ac efallai y bydd angen ymchwiliad llawn arnynt, sy'n dod o fewn cylch gwaith y Comisiynydd. Gall y Comisiynydd gyfeirio'r mater at y Llywydd neu Gadeirydd y Pwyllgor perthnasol os yw'n briodol.

[10] Y Senedd, Rheolau Sefydlog 3, 4 a 5.

## Rhan 2: Dehongli ac Egwyddorion Cyffredinol

### Perthynas Rheolau ac Egwyddorion y Cod

Mae'r Cod yn nodi nifer o Egwyddorion Cyffredinol sy'n mynegi'n gyffredinol sut y mae'n rhaid i Aelodau ymddwyn. Mae pob Egwyddor (Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn agored, Gonestrwydd, Parch, Arweinyddiaeth) yn cyd-fynd â thestun, i ddangos yr ymddygiad sy'n ymwneud â'r Egwyddor honno. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi esboniad ychwanegol o'r dehongliad a'r defnydd o'r Egwyddorion.

Mae'r Egwyddorion yn llywio'r Rheolau ymddygiad penodol a nodir yn Rhan 3. Er enghraifft, mae methu â chynnal yr Egwyddor Parch.[11] yn debygol o fod yn gyfystyr ag Aelod sy'n torri un neu fwy o'r Rheolau a ganlyn:

- Rheol 4: Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol.
- Rheol 5: Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu.
- Rheol 6: Rhaid i Aelodau gynnal y gyfraith droseddol. Ystyrir bod Aelod wedi methu â chynnal y gyfraith droseddol dim ond os yw'n cael ei euogfarnu o drosedd neu os yw'n cyfaddef trosedd yn ffurfiol.
- Rheol 7: Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un — mewn unrhyw ohebiaeth (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ar ffurf electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall) — mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo..[12]

At hynny, mae Rheol 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gynnal yr Egwyddorion, ac felly mae'n bosibl y canfu bod ymddygiad nad yw'n torri un o'r Rheolau eraill, yn torri un neu fwy o'r Egwyddorion Cyffredinol o hyd, ac i hyn fod yn torri Rheol 1.

### Yr Egwyddor Anhunanoldeb

[11] Y Cod Ymddygiad, para 8: "Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid iddynt barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir."
[12] Y Cod Ymddygiad, para 12.

Mae'r Cod yn nodi bod rhaid i Aelodau:

> *"wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni chânt wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy neu unrhyw berson arall elwa'n ariannol neu'n faterol, a hynny mewn modd amhriodol neu fodd nas caniateir."*[13]

Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn nodi rheolau ar ddatgan buddiannau perthnasol a chofrestradwy,[14] a bod Aelodau wedi'u gwahardd rhag pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fuddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru neu ei ddatgan lle mae'r penderfyniad yn debygol o arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod sy'n fwy na'r hyn sy'n cronni i'r etholwyr yn gyffredinol (ac eithrio o ran cadeirydd pwyllgor yn defnyddio'r bleidlais fwrw[15]).

Gellir defnyddio'r dull hwn yn ddefnyddiol mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau eraill a wneir gan Aelodau wrth gyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus, neu wrth ryngweithio eu bywydau cyhoeddus a phreifat. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y **Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill.**

## Yr Egwyddor Uniondeb

Mae'r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *"Ni chaiff Aelodau roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol."*[16]

Mae'r dehongliad o ddyletswyddau swyddogol Aelodau yn eang ac yn golygu unrhyw weithgarwch mewn perthynas â busnes yn y Senedd a busnes etholaethol sy'n codi o'u hethol yn Aelod. Mae'n cynnwys, er enghraifft, ymgymryd â gwaith achos, pleidleisio, trafod cynnwys adroddiadau pwyllgorau, codi cwestiynau, hyrwyddo materion (gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol),

[13] Y Cod Ymddygiad, Para 8
[14] Yn benodol, Rheolau Sefydlog 2.9, 13.8A, 13.8B, 17.24A a 17.24B.
[15] Caniateir y bleidlais hon o hyd, oherwydd disgresiwn cyfyngedig iawn sydd gan gadeirydd pwyllgor ar sut y defnyddir y bleidlais fwrw - rhaid ei defnyddio naill ai i alluogi trafodaeth bellach ar fater, neu os nad yw trafodaeth bellach yn bosibl i gynnal y sefyllfa bresennol ym mha bynnag sefyllfa y galwyd ar y bleidlais.
[16] Y Cod Ymddygiad, Para 8

ac ati. Rhaid peidio â gwneud penderfyniadau o'r fath yn gyfnewid am daliad na budd materol arall.

Mae'r Cod hefyd yn nodi fel a ganlyn:

> *"Rhaid i Aelodau bob amser ymddwyn mewn ffordd na fydd yn tanseilio ffydd a hyder y cyhoedd yn uniondeb y Senedd ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn anfri ar y Senedd neu ar ei Haelodau yn gyffredinol.".*[17]

Mae'r Cod, yn benodol Rheol 4, hefyd yn mynd i'r afael â'r mater o ddwyn anfri ar y Senedd:

> *"Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol.".*[18]

## Yr Egwyddor Gwrthrychedd

Mae'r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *"Wrth gyflawni eu busnes, rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.".*[19]

Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, penderfyniadau mewn perthynas â gwneud penodiadau cyhoeddus, neu mewn perthynas ag argymell unigolion ar gyfer dyfarniadau, anrhydeddau, neu fuddiannau eraill.

## Yr Egwyddor Atebolrwydd

Mae'r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae Aelodau yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd gyhoeddus fel aelodau o'r Senedd.".*[20]

Gall natur gwaith craffu o'r fath fod yn eang a gall amrywio mewn perthynas â gwahanol amgylchiadau. Byddai, er enghraifft, yn cynnwys galluogi cyhoeddi hawliadau treuliau a chadw cofnodion priodol fel sy'n ofynnol gan unrhyw reolau. Gall hefyd gynnwys cydweithredu ag unrhyw ymchwiliadau sy'n ymwneud â

[17] Y Cod Ymddygiad, Para 8
[18] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[19] Y Cod Ymddygiad, Para 8
[20] Y Cod Ymddygiad, Para 8

phenderfyniadau a gweithredoedd Aelodau (er enghraifft gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd, Comisiwn y Senedd, ac ati).

## Yr Egwyddor Bod yn Agored

Mae'r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *"Rhaid i Aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Rhaid iddynt roi rhesymau dros eu penderfyniadau a chyfyngu ar wybodaeth dim ond yn unol â gofynion statudol, Rheolau Sefydlog y Senedd a rheolau sy'n rhwymo Aelodau o'r Senedd a'u staff, neu pan fo budd y cyhoedd ehangach yn amlwg yn mynnu hynny."*.[21]

Nid yw'r Egwyddor Bod yn Agored yn darparu ar gyfer datgelu gwybodaeth gyfrinachol a/neu wedi'i marcio'n amddiffynnol mewn modd anghyfiawn. Rhaid i Aelodau ddilyn Rheolau 15 a 16 mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth a datgelu gwybodaeth.

## Yr Egwyddor Gonestrwydd

Mae'r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *"Rhaid i Aelodau fod yn onest, rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a rhaid iddynt gymryd camau i ddatrys unrhyw achosion o wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus."*.[22]

Ni ddylai Aelodau wneud datganiadau y maent yn gwybod — neu y dylent fod yn gwybod — eu bod yn ffug. Gellir dwyn Aelodau i gyfrif drwy'r weithdrefn safonau am wneud datganiadau ffug, am beidio â chymryd camau rhesymol a chall i wirio cywirdeb datganiadau a honiadau ac am beidio â chymryd camau amserol a phriodol i gywiro anghywirdebau neu gamgymeriadau. Adlewyrchir hyn yn Rheolau 2 a 3 o'r Cod.

Mae canllawiau ar y gofyniad bod yn rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw achosion o wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n

[21] Y Cod Ymddygiad, Para 8
[22] Y Cod Ymddygiad, Para 8

diogelu buddiannau cyhoeddus ar gael yn y **Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill**.

Yn y seithfed adroddiad i'r Chweched Senedd, rhoddodd y Comisiynydd rywfaint o eglurhad ynghylch egwyddor gonestrwydd a'r dull o wneud penderfyniadau ar yr hyn "y dylai Aelodau fod yn gwybod" ei fod yn ffug.[23]

Nododd y Comisiynydd

> *"If a statement breaches [the Honesty Principle], it must be dishonest. Dishonesty is normally defined as including some element of deceit, fraud or moral turpitude. Whilst all dishonest statements are incorrect not all incorrect statements are dishonest. The supporting text to the Honesty Principle requires that Members be truthful. In my opinion given the context that must be interpreted as meaning no more that Members must be honest and not dishonest."*

Mae'r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *"Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid iddynt barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir."*[24]

Mae'r Cod yn diffinio gwahaniaethu fel a ganlyn:

> *"ymddygiad sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, barn wleidyddol a dewis iaith."*[25]

Mae'r gofyniad hwn yn ymwneud â phob math o wahaniaethu anghyfreithlon, gan gynnwys:

- gwahaniaethu uniongyrchol: trin pobl yn wahanol ar y seiliau a nodir yn y diffiniad;
- gwahaniaethu anuniongyrchol: triniaeth nad yw'n ymddangos ei bod yn gwahaniaethu rhwng pobl (ar y seiliau a nodir yn y diffiniad), ond sydd o dan anfantais anghymesur iddynt; ac

---

[23] Safonau - Adroddiad Terfynol
[24] Y Cod Ymddygiad, Para 8
[25] Y Cod Ymddygiad, Para 10

- erledigaeth: trin person yn llai ffafriol oherwydd ei fod wedi cwyno am wahaniaethu, dwyn achos am wahaniaethu, neu wedi bod yn rhan o gŵyn am wahaniaethu neu ddwyn achos am wahaniaethu.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau barchu urddas pobl eraill,.[26] ond gyda'r awgrym cynnil o'u hawl i ryddid mynegiant, sydd wedi'i ymgorffori yn Erthygl 10.1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ('y Confensiwn'). Mae cyfraith achos ar ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 yng nghyd-destun datganiadau gan gynrychiolwyr etholedig wedi'i chrynhoi yn flaenorol yn *Heesom v Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*:

> *ii) Article 10 protects not only the substance of what is said, but also the form in which it is conveyed. Therefore, in the political context, a degree of the immoderate, offensive, shocking, disturbing, exaggerated, provocative, polemical, colourful, emotive, non-rational and aggressive, that would not be acceptable outside that context, is tolerated… Whilst, in a political context, article 10 protects the right to make incorrect but honestly made statements, it does not protect statements which the publisher knows to be false.*
>
> *iii) Politicians have enhanced protection as to what they say in the political arena; but Strasbourg also recognises that, because they are public servants engaged in politics, who voluntarily enter that arena and have the right and ability to respond to commentators (any response, too, having the advantage of enhanced protection), politicians are subject to "wider limits of acceptable criticism". They are expected and required to have thicker skins and have more tolerance to comment that ordinary citizens.*
>
> *iv) Enhanced protection therefore applies, not only to politicians, but also to those who comment upon politics and politicians, notably the press; because the right protects, more broadly, the public interest in a democracy of open discussion of matters of public concern. Thus, so far as freedom of speech is concerned, many of the cases concern the protection of, not a politician's right, but the right of those who criticise politicians.*
>
> *v) The protection goes to "political expression"; but that is a broad concept in this context. It is not limited to expressions of or critiques of*

[26] Y Cod Ymddygiad, Para 8

*political views, but rather extends to all matters of public administration and public concern including comments about the adequacy or inadequacy of performance of public duties by others. The cases are careful not unduly to restrict the concept; although gratuitous personal comments do not fall within it. (emphasis added)*

*vi) The cases draw a distinction between fact on the one hand, and comment on matters of public interest involving value judgment on the other. As the latter is unsusceptible of proof, comments in the political context amounting to value judgments are tolerated even if untrue, so long as they have some – any – factual basis. What amounts to a value judgment as opposed to fact will be generously construed in favour of the former; and, even where something expressed is not a value judgment but a statement of fact (e.g. that a council has not consulted on a project), that will be tolerated if what is expressed is said in good faith and there is some reasonable (even if incorrect) factual basis for saying it, "reasonableness" here taking account of the political context in which the thing was said.*

*vii) As article 10(2) expressly recognises, the right to freedom of speech brings with it duties and responsibilities. In most instances, where the State seeks to impose a restriction on the right under article 10(2), the determinative question is whether the restriction is "necessary in a democratic society". This requires the restriction to respond to a "pressing social need", for relevant and sufficient reasons; and to be proportionate to the legitimate aim pursued by the State.*

*viii) As with all Convention rights that are not absolute, the State has a margin of appreciation in how protects the right of freedom of expression and how it restricts that right. However, that margin must be construed narrowly in this context: "There is little scope under article 10(2) of the Convention for restrictions on political speech or on debate on questions of public interest.*

*ix) Similarly, because of the importance of freedom of expression in the political arena, any interference with that right (either of politicians or in criticism of them) calls for the closest scrutiny by the court..*[27]

[27] Heesom v Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, [2014] EWHC 1504 (Admin) per Higginbottom J, Para 38, **http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2014/1504.html**

O'r herwydd, nid yw'r Egwyddor Parch yn golygu na all Aelodau gymryd rhan mewn dadl gadarn gyda gwrthwynebwyr gwleidyddol neu eraill. Mae beirniadaeth o syniadau a safbwyntiau gwahanol yn rhan o ddadl ddemocrataidd, ond ni ddylai hyn arwain at gam-drin personol.

Adlewyrchir yr awgrym cynnil hwn yn Rheol 7, sy'n nodi:

> *"Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un — mewn unrhyw ohebiaeth (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ar ffurf electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall) — mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo."*[28]

Gellir nodi bod y Cod yn diffinio bwlio fel:

> *"ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus neu sarhaus; neu gam-drin neu gamddefnyddio pŵer mewn ffordd sy'n bwriadu tanseilio, bychanu, beirniadu'n annheg neu anafu rhywun, naill ai trwy ymddygiad parhaus neu un weithred annerbyniol iawn."*[29]

Ni fyddai hyn yn cynnwys gweithredoedd fel Aelod yn herio neu'n cwestiynu polisi mewn modd cadarn, yn craffu ar berfformiad, neu'n cyflawni ei rôl o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif fel arall.

Gall bwlio ddigwydd 'wyneb yn wyneb' a thrwy gyfryngau print ac electronig. Mae'r safonau ymddygiad a ddisgwylir yr un fath, ni waeth sut mae Aelod yn mynegi ei hun.

## Yr Egwyddor Arweinyddiaeth

Mae'r Cod yn nodi fel a ganlyn:

> *"Rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r Egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth a dangos esiampl, a bod yn barod i herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd."*[30]

Rhaid i Aelodau gynnal yr Egwyddorion a chydymffurfio â'r Cod wrth herio ymddygiad gwael.

[28] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[29] Y Cod Ymddygiad, Para 10
[30] Y Cod Ymddygiad, Para 8

Gall amgylchiadau a chyd-destun fod yn arbennig o bwysig wrth ystyried y gofyniad i herio ymddygiad gwael. Er enghraifft, pe bai Aelod yn bresennol tra bod Aelod arall yn gwneud ymosodiadau a oedd yn bersonol, hiliol, rhywiaethol (ac ati), tuag at aelod o staff neu'r cyhoedd, rhagwelid fel rheol y byddai'r Aelod yn herio ymddygiad o'r fath yn uniongyrchol. Fodd bynnag, pe bai gan Aelod achos i bryderu y byddai ymyrryd yn uniongyrchol mewn sefyllfa benodol yn peryglu ei ddiogelwch personol, efallai mai ymateb rhesymol fyddai ei ddwyn i sylw rhywun arall, er mwyn mynd i’r afael â’r sefyllfa.

# Rhan 3 - Safonau Ymddygiad Personol Aelodau

## Rheol 1

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 1:

> "Rhaid i Aelodau gynnal yr Egwyddorion Cyffredinol.".[31]

Dim ond pan nad oes rheol sy'n fwy priodol y dylid dibynnu ar Reol 1 wrth wneud cwyn. Wrth wneud cwyn am ymddygiad Aelod, dylid ystyried y rheolau penodol eraill yn gyntaf.

Os yw'r gŵyn er hynny wedi'i llunio o dan Reol 1 yna dylai, fel pob cwyn, nodi'r ymddygiad penodol y cwynir amdano, a dylai gael ei chefnogi gan dystiolaeth o'r achos honedig o dorri'r Cod.

## Rheol 2 a 3

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 2:

> *"Rhaid i'r Aelodau:*
>
> *(a) weithredu'n onest; a*
>
> *(b) peidio â gwneud datganiadau sy'n fwriadol gamarweiniol."*.[32]

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 3:

> Rhaid i Aelodau gywiro'r cofnod cyn gynted â phosibl os ydynt wedi gwneud datganiad sy'n anghywir neu'n fwriadol gamarweiniol.

Mae'r rheolau hyn yn ymwneud â gonestrwydd Aelodau.

Ni fyddai celwydd golau (e.e. honni ei fod yn 'iawn' pan fydd Aelod wedi blino mewn gwirionedd) neu ryw ddiffyg gwirionedd arall, yn cael ei ystyried yn achos o dorri'r Rheol hon. Yn yr un modd, er y disgwylir i Aelodau wirio ffeithiau'n rhesymol a gwirio eu honiadau, mae'n anochel y bydd datganiadau 'anghywir, ond wedi'u gwneud yn onest,' yn digwydd o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, gallai Aelod gamddyfynnu ffigur ariannol yn anfwriadol ("£60,000" yn hytrach na

[31] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[32] Y Cod Ymddygiad, Para 12

"£600,000"). Ar yr amod bod yr Aelod wedi cywiro'r gwall cyn gynted â phosibl, mae cwynion o'r fath yn debygol o gael eu hystyried yn wamal neu'n flinderus.

Mae angen i gywiriadau neu dynnu rhywbeth yn ôl fod yr un mor amlwg â'r datganiad anghywir cychwynnol. Er enghraifft, os gwnaed y datganiad mewn post ar gyfryngau cymdeithasol, dylai Aelodau ystyried a ddylid dileu'r post yn ei gyfanrwydd, neu a ddylid cywiro'r post gwreiddiol, neu o fewn edefyn os yw'n dal i fod yn sgwrs weithredol (neu'r ddau). Gall Aelodau ofyn am gyngor gan y Comisiynydd Safonau ynghylch a yw eu cywiriad arfaethedig yn ddigonol

Ymhlith pethau eraill, mae sylwedd canlyniadau celwydd neu ddatganiad sy'n fwriadol gamarweiniol yn debygol o fod yn ffactor wrth bennu cosb am ymddygiad o'r fath.

O ran asesu a yw datganiad yn gamarweiniol, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i a fyddai'r sylw yn cael ei ystyried yn gamarweiniol gan berson rhesymol a diduedd o ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylw ynddo.

## Rheol 4

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 4:

> *"Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol."*.[33]

Mae hyn yn rhoi effaith benodol i'r Egwyddor Uniondeb. Gall dehongli materion a allai ddwyn anfri ar y Senedd, ym meddwl rhywun rhesymol a diduedd, fod yn eang ei gwmpas. Mae enghreifftiau blaenorol wedi cynnwys defnyddio iaith a/neu ddelweddaeth amhriodol a/neu ymosodol, ymddygiad ymosodol corfforol a geiriol, argyhoeddiad troseddol a diffyg gofal a goruchwyliaeth ddigonol wrth ddefnyddio adnoddau'r Senedd.

## Rheol 5

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 5:

> *"Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu."*.[34]

[33] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[34] Y Cod Ymddygiad, Para 12

Nodir diffiniadau o ymddygiad nas dymunir, aflonyddu, bwlio a gwahaniaethu ym mharagraff 10 o'r Cod. Mae'r Rheol hon yn rhoi effaith benodol i'r Egwyddor Parch.

## Rheol 6

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 6:

> *"Rhaid i Aelodau gynnal y gyfraith droseddol. Ystyrir bod Aelod wedi methu â chynnal y gyfraith droseddol dim ond os yw'n cael ei euogfarnu o drosedd neu os yw'n cyfaddef trosedd yn ffurfiol."*.[35]

Gellir nodi y gall canfyddiadau o ymddygiad amhriodol ynddynt eu hunain hefyd fod yn droseddau, megis aflonyddu troseddol, ymosodiad cyffredin, neu ymosodiad rhywiol.

Mae'r Rheol hon hefyd yn cwmpasu achosion eraill lle mae cyfraith droseddol wedi'i thorri: er enghraifft, os caiff Aelod ei gollfarnu neu ei rybuddio am drosedd yn erbyn y drefn gyhoeddus. Mae achosion blaenorol o dorri'r Rheol hon yn cynnwys dirmyg llys a throseddau gyrru. Mae'r Rheol yn berthnasol i gollfarn neu rybudd am unrhyw drosedd gan gynnwys troseddau traffig ffyrdd - nid yw'n cwmpasu materion megis hysbysiad cosb am ddirwyon parcio.

Os nad oes cyhuddiad na rhybudd, yna ni ystyrir bod Aelod wedi torri'r Rheol hon.

## Rheol 7

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 7:

> *"Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un — mewn unrhyw ohebiaeth (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ar ffurf electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall) — mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo."*.[36]

Fel y nodwyd yn flaenorol, mewn perthynas â'r Egwyddor Parch, mae amgylchiadau lle na fydd 'ymosodiad personol' yn cael ei ystyried yn achos o dorri'r Cod, oherwydd nid yw'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol o

[35] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[36] Y Cod Ymddygiad, Para 12

fewn cyd-destun gwleidyddol. Fodd bynnag, nid yw cyd-destun gwleidyddol yn 'carte blanche' ar gyfer unrhyw fath o ymosodiad personol.

Diben y Rheol hon yw mynd i'r afael ag achosion o ymosodiad dybryd, ac mae'n rhoi effaith i'r Egwyddor Parch. Rhaid cydbwyso'r defnydd o'r Rheol yn erbyn y diogelwch cryf o'r hawl i ryddid mynegiant o dan erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae'r defnydd o'r Rheol yn ystyried y dull a fabwysiadwyd yn yr achos *Calver, R (Ar Gais) yn erbyn Panel Dyfarnu Cymru*, lle nodwyd:

> *"the more egregious the conduct, the easier it is likely to be for the panel, and for the court, to undertake the balancing that is required and justifiably to conclude that what was said or done falls within one of the exceptions to freedom of expression under common law, statute or the Convention. If the conduct is less egregious, it is likely to be more difficult to do this."*.[37]

## Rheol 8

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 8:

> *"Rhaid i Aelodau ddatrys unrhyw achosion o wrthdaro sy'n codi rhwng eu buddiannau preifat a budd y cyhoedd ar unwaith, ac o blaid budd y cyhoedd."*.[38]

Mae canllawiau manwl ar gyfer Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill ar gael yn y **Canllawiau i Aelodau ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill**.

## Rheol 9

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 9:

> *"Rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r Rheolau a wneir o bryd i'w gilydd gan Glerc a Phrif Weithredwr y Senedd fel Prif Swyddog Cyfrifo Comisiwn y Senedd ar y defnydd o adnoddau a ddarperir i Aelodau gan Gomisiwn y Senedd."*.[39]

[37] Calver, R (Ar Gais) v Panel Dyfarnu Cymru (Adolygiad 2) [2012] EWHC 1172 (Gweinyddiaeth) (03 Mai 2012), Para 49, http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2012/1172.html
[38] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[39] Y Cod Ymddygiad, Para 12

Nodir y rhain ar hyn o bryd yn y **Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.**

Yn benodol, gellir nodi bod yr Aelodau'n atebol am ddefnyddio unrhyw adnoddau a ddarperir iddynt, gan gynnwys defnydd gan unrhyw un y maent yn caniatáu iddynt gael mynediad at adnoddau o'r fath.

## Rheol 10

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 10:

> *"ni chaiff Aelodau gamddefnyddio taliadau nac adnoddau sydd ar gael iddynt o dan benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd."*.[40]

Gall Aelodau ddefnyddio adnoddau i gyflogi staff ac i redeg swyddfeydd yn eu hetholaethau er mwyn ymdrin â phroblemau ac achosion a godir gan y rhai y maent yn eu cynrychioli. Gallant hefyd hawlio ad-daliad am gostau y bydd yn rhaid iddynt eu hysgwyddo os bydd angen iddynt aros oddi cartref dros nos i ymgymryd â'u dyletswyddau swyddogol fel Aelodau o'r Senedd.

Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r hyn y mae gan Aelodau hawl i hawlio amdanynt wedi'u cynnwys ym Mhenderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Gyflog, Staff a Chymorth Busnes yr Aelodau, sydd ar gael ar dudalen **Cyflogau a Threuliau Aelodau o'r Senedd**.

Ni chaiff aelodau hawlio costau cyflogaeth aelod o'r teulu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y **Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofnodi cyflogaeth aelodau'r teulu gyda chymorth arian y Comisiwn**.

## Rheol 11

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 11

> *Rhaid i Aelodau fod yn gyflogwyr cyfrifol.*

Mae'r Penderfyniad ar Gyflog, Staff a Chymorth Busnes yr Aelodau yn darparu cyllid i Aelodau o'r Senedd ar gyfer cyflogi staff. Mae pob Aelod yn gyflogwr

[40] Y Cod Ymddygiad, Para 12

unigol ac yn gyfrifol am y staff a gyflogir yn eu swyddfa, gyda swyddfa pob Aelod o'r Senedd yn weithle unigol i bob pwrpas.

Felly, mae'n ddyletswydd ar yr Aelodau eu bod yn rhoi trefniadau ar waith ar gyfer eu staff yn unol â'r Penderfyniad, yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ac arfer cyflogaeth da e.e. fel y nodir yng nghodau ymarfer ACAS a darparu llawlyfr staff i'r aelodau o staff.

Dylid trin staff a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd ag urddas a pharch.

Nid bwriad y Rheol hon yw darparu dulliau ychwanegol neu amgen o ddatrys anghydfodau neu gwynion cyflogaeth. Dylid defnyddio'r llwybrau unioni presennol ar gyfer hynny.

Mae'r Rheol yn gosod rhwymedigaeth ar Aelodau i weithredu yn ôl safonau sy'n cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol fel cyflogwyr a dilyn arferion cyflogaeth da a dderbynnir yn eang.

Yn ogystal â chynnal polisïau cyflogaeth angenrheidiol a phriodol, bydd cyflogwr cyfrifol, er enghraifft, a lle bo modd, yn dilyn hyfforddiant a gynigir i Aelodau ac sy'n gysylltiedig â'u rôl fel cyflogwr eu staff.

Ni fydd amrywiadau a gwahaniaethau rhesymol rhwng arferion ac arddulliau cyflogaeth a rheolaeth ac arweinyddiaeth tîm yn sail dros gŵyn o dan y Rheol hon.

Pan wneir cwyn o dan y Rheol hon, disgwylir i'r achwynydd gyflwyno tystiolaeth o'r polisïau a'r arferion cyflogaeth y maent yn ystyried y dylai cyflogwr cyfrifol eu dilyn ac y maent yn honni nad ydynt wedi'u dilyn na'u mabwysiadu o dan amgylchiadau'r gŵyn.

## Rheol 12

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 12:

> *"Ni chaiff Aelodau dderbyn unrhyw gymhelliant ariannol, rhodd, lletygarwch neu fudd arall fel cymhelliant neu wobr am gyflawni eu swyddogaethau fel Aelod o'r Senedd, am ddylanwadu ar drafodion yn y Senedd, neu a allai fel arall ymddangos i berson rhesymol a diduedd i ddylanwadu, neu o bosibl ddylanwadu ar eu gweithredoedd fel Aelod, ac eithrio i'r*

> *graddau y mae eu derbyn yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth a wneir mewn Rheolau Sefydlog.”.*[41]

Dyma'r ‘rheol adfocatiaeth ddi-dâl’ ac mae hefyd yn cynnwys ‘taliad mewn nwyddau,’ lle gallai rhywun gynnig ffafr anariannol i'r Aelod yn gyfnewid am ddylanwadu ar drafodion yn y Senedd, neu fel arall gyflawni ei swyddogaethau fel Aelod o'r Senedd (e.e. cyfarfod â Gweinidog i drafod mater penodol). Mae trafodion yn y Senedd yn cynnwys pleidleisio ar unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth, codi unrhyw gwestiwn yng nghyfarfodydd y pwyllgorau neu'r Cyfarfod Llawn, neu hyrwyddo unrhyw fater fel arall. Mae canllawiau manwl ar gyfer Aelodau o’r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill ar gael yn y **Canllawiau i Aelodau ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill.**

## Rheol 13

Mae’r Cod yn nodi yn Rheol 13:

> *“Ni chaiff Aelodau ddefnyddio na cheisio defnyddio eu statws fel Aelod i roi mantais neu driniaeth ffafriol i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i osgoi anfantais neu greu anfantais i rywun arall.”.*[42]

Nid yw hyn yn golygu na all Aelod dynnu sylw at sefyllfa benodol unigolyn, fel ffordd o ddangos mater ehangach o bolisi cyhoeddus.

## Rheol 14

Mae’r Cod yn nodi yn Rheol 14

*Rhaid i Aelodau fod yn agored ac yn dryloyw gydag Aelodau eraill, swyddogion Comisiwn y Senedd a swyddogion unrhyw gorff neu awdurdod cyhoeddus arall, wrth ddatgelu unrhyw weithgareddau a gyflawnir mewn perthynas ag unigolyn neu sefydliad, neu a gyflawnir ar ran unigolyn neu sefydliad, y mae gan Aelod berthynas â nhw, y byddai'n ofynnol i'r Aelod, o dan y Rheolau Sefydlog, eu cofrestru neu eu datgan yn nhrafodion y Senedd.*

[41] Y Cod Ymddygiad, para 12. Mae Rheol Sefydlog 2.8 hefyd yn nodi bod yn rhaid i Aelod beidio â chychwyn na dadlau o blaid unrhyw achos neu fater ar ran unrhyw gorff neu unigolyn mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, nac annog unrhyw Aelod arall i gychwyn neu ddadlau o blaid unrhyw achos neu fater mewn unrhyw drafodion o’r fath, yn gyfnewid am unrhyw dâl neu fudd mewn da, boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, y mae'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, ei bartner neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, wedi'i gael neu'n disgwyl ei gael.
[42] Y Cod Ymddygiad, Para 12

Mae'r rheol hon yn ymwneud ag Aelodau sy'n ymgymryd â gweithredoedd y tu allan i drafodion y Senedd pan fydd Aelodau'n gohebu neu'n delio ag Aelodau eraill, Gweinidogion, swyddogion Comisiwn y Senedd, Gweision Sifil a swyddogion unrhyw gorff neu awdurdod cyhoeddus arall neu gorfforaethau, yna rhaid iddynt sôn am unrhyw fuddiannau sydd ganddynt sy'n gysylltiedig â'r mater dan sylw.

Mae'r rheolau ar gyfer datgan buddiannau perthnasol neu gofrestradwy yn nhrafodion y Senedd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, mae rôl Aelod yn ymestyn y tu hwnt i drafodion y Senedd. Felly mae'r rheol hon yn ei gwneud yn ofynnol bod datganiad yn cael ei wneud pan fydd Aelod yn gwneud unrhyw sylwadau llafar neu ysgrifenedig ac yn gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Aelod o'r Senedd mewn mater lle mae ganddo fuddiant personol hefyd.

Wrth ystyried a oes angen datganiad, efallai y bydd yr Aelodau am ystyried y gofynion ar gyfer datgan buddiannau a nodir yn Rheolau Sefydlog 2.7 a 13.8A/17.24A ac yn y canllawiau ar gofrestru a datgan buddiannau.

Ni fyddai'r rheol hon yn cwmpasu materion fel gohebiaeth bersonol, gan nad yw'r rhain yn ymwneud â rôl swyddogol Aelod.

## Rheol 15

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 15:

> *"Ni chaiff Aelodau weithredu mewn ffordd sy'n ymyrryd yn amhriodol, y bwriedir iddo ymyrryd yn amhriodol neu y mae'n debygol o ymyrryd yn amhriodol, ar berfformiad y Senedd neu bwyllgor y Senedd wrth ei gwaith, na gallu Aelod, unrhyw aelod o staff Aelod neu swyddogion a gweithwyr Comisiwn y Senedd, neu ddyletswyddau Comisiynydd Safonau y Senedd neu staff y Comisiynydd, i gyflawni eu dyletswyddau."*.[43]

Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys rhyddhau nodiadau briffio cyfrinachol gan bwyllgor neu adroddiad drafft pwyllgor (a fyddai hefyd yn gweithredu Rheol 16, gan fod dogfennau o'r fath wedi'u marcio'n amddiffynnol).

## Rheol 16

[43] Y Cod Ymddygiad, Para 12

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 16:

> *Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ymddygiad sy'n rhoi pwysau ar unigolion i:*

*i)* *gyfaddawdu didueddrwydd gwleidyddol Comisiwn y Senedd neu'r Gwasanaeth Sifil;*

*ii)* *torri Cod Ymddygiad Staff Comisiwn y Senedd;*

*iii)* *torri Cod y Gwasanaeth Sifil;*

*iv)* *torri Cod Ymddygiad Staff Cymorth; neu*

*v)* *ymdrin â cheisiadau am wybodaeth ac eithrio fel y nodir yng Nghod Ymarfer y Senedd ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth."*.[44]

Ni ragwelir y bydd Aelodau'n gyfarwydd â manylion y Codau hyn, ac yn y pen draw bydd swyddogion yn gyfrifol am benderfynu a allai cais neu ymddygiad penodol gan Aelod gyfaddawdu ei ddidueddrwydd gwleidyddol. Fodd bynnag, lle mae swyddog wedi nodi y byddai Cod perthnasol neu ei ddidueddrwydd gwleidyddol yn ei atal rhag gwneud rhywbeth (neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud rhywbeth), ni chaiff Aelod roi pwysau i ddylanwadu ar ei benderfyniad neu fel arall gymell newid safbwynt.

## Rheol 17

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 17:

> *"Ni chaiff Aelodau, mewn perthynas â datgelu gwybodaeth:*
>
> *(i) sy'n gyfrinachol neu wedi'i farcio i'w ddiogelu fel arall, ei datgelu ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu'r awdurdod sy'n rheoli'r wybodaeth neu pan fo angen eu caniatâd i'w datgelu yn ôl y gyfraith;*
>
> *(ii) defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol heblaw yn rhinwedd eu swydd fel Aelod o'r Senedd, ac ni chânt ddefnyddio, neu geisio defnyddio, gwybodaeth o'r fath at ddibenion mantais ariannol neu unrhyw fantais bersonol arall; nac*

[44] Y Cod Ymddygiad, Para 12

> *(iii) atal unrhyw berson rhag cael mynediad at wybodaeth fel y caniateir yn ôl y gyfraith.".*[45]

Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol y gall unrhyw wybodaeth y maent yn ei phrosesu gael ei rhyddhau i unigolion neu i'r cyhoedd yn ehangach yn unol â deddfwriaeth a Chod Ymarfer y Senedd ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth.

Mae'r gofynion a nodir yn Rheol 16 hefyd yn berthnasol ar ôl i Aelod roi'r gorau i fod yn Aelod o'r Senedd.

## Rheol 18

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 18:

> *"Ni chaiff Aelodau annog Aelod arall i fynd yn groes i unrhyw un o ddarpariaethau'r Cod hwn, gan gynnwys y Rheolau mewn perthynas â chwynion ac ymchwiliadau safonau.".*[46]

Bydd y penderfyniad ynghylch p'un a oedd Aelod yn annog rhywun arall yn seiliedig ar p'un a fyddai person diduedd a rhesymol yn ystyried bod ei ymddygiad yn annog tramgwydd yn uniongyrchol, ni waeth a gyfeirir at y Cod yn benodol ai peidio. Yn ddarostyngedig i gyd-destun ac amgylchiadau, mae anogaeth anuniongyrchol yn llai tebygol o gael ei ystyried fel achos o dorri'r Cod.

## Rheol 19

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 19:

> *"Rhaid i Aelodau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal ac yn gweithredu yn unol â'r Rheolau hyn a'r Egwyddorion Cyffredinol.".*[47]

I gyflawni hyn, rhagwelir y bydd Aelodau'n annog, neu'n mynnu, bod eu staff yn ymgymryd â hyfforddiant — gan gynnwys cyrsiau gloywi. Fodd bynnag, yr Aelodau sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau eu bod hwy eu hunain a'u staff yn ymwybodol o gynnwys y Cod a'r holl ganllawiau cysylltiedig a gwybodaeth ychwanegol. Nid yw anwybodaeth o ddarpariaethau'r Cod yn rheswm dilys dros eu torri.

[45] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[46] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[47] Y Cod Ymddygiad, Para 12

Ni chaniateir i Aelod geisio osgoi'r Cod, drwy ofyn i'w staff gymryd camau y byddai'r Cod yn eu hatal rhag eu cymryd eu hunain.

Er mwyn cydymffurfio â'r Rheol hon rhaid i Aelodau sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad a darpariaethau perthnasol eraill, yn eu deall ac yn cydymffurfio â nhw. Cyn awdurdodi aelod o staff i weithredu ar ei ran, rhaid i Aelodau fodloni eu hunain bod gan yr unigolyn y sgiliau a'r wybodaeth briodol. Mae sut i wneud hynny i fyny i'r Aelod, ond gallai camau gweithredu priodol gynnwys –

- staff yn ymgymryd â hyfforddiant gan gynnwys hyfforddiant gloywi;
- archwiliad o waith staff i wirio a yw'n cydymffurfio;
- ymchwiliad i unrhyw gamymddwyn honedig gan staff;
- cymryd camau gweithredu, gan gynnwys camau disgyblu pan fo'n briodol, yn dilyn ymchwiliad.

Dylai Aelodau gadw cofnod o'r camau a gymerwyd fel ei fod ar gael i'r Comisiynydd Safonau rhag ofn y bydd ymchwiliad i achos o dorri'r Rheol hon.

## Rheol 20

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 20

> *Rhaid i Aelodau dderbyn unrhyw beth a gyhoeddir yn eu henw p'un a gafodd ei gyhoeddi gan yr Aelodau neu eu staff, ac y byddant yn cael eu dal yn gyfrifol am hynny.*

Gall Aelodau ddewis defnyddio eu hadnoddau staff yn ôl yr angen, a'r Aelod sy'n penderfynu ar yr ymreolaeth a roddir i'w staff weithredu ar eu rhan. Fodd bynnag, pan fydd aelodau staff yn gweithredu'n benodol yn enw'r Aelod ac mae'n ymddangos i'r cyhoedd fel pe bai'r Aelod ei hun yn gweithredu (er enghraifft postio ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol yn enw'r Aelod), yna'r Aelod sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gamau o'r fath yn unol â'r Cod.[48]

**28.** Efallai y byddai'n ddoeth i Aelodau nodi pryd mae Staff Cymorth yn ysgrifennu negeseuon ar eich rhan er mwyn caniatáu mwy o dryloywder.

[48] Standards - MERGED EN.pdf - All Documents

## Rheolau sy'n gysylltiedig â threfn Safonau'r Senedd (Rheolau 21-27)

Ymdrinnir ag unrhyw gyhuddiadau o beidio â chydymffurfio â'r Cod drwy'r broses a nodir yn y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd, fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd. .[49]

Mae gwybodaeth am rôl Comisiynydd Safonau'r Senedd, gan gynnwys manylion cyswllt ar gael ar **wefan Comisiynydd Safonau'r Senedd**.

Mae Rheolau 19-27 yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau mewn perthynas â'r cod a'r broses Safonau. Rhaid i Aelodau ymgysylltu â'r broses ac ni allant geisio ei hoedi neu ei thanseilio. Mae gan y Rheolau hyn rôl allweddol wrth gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y broses, a gall methu â'u cynnal waethygu unrhyw sancsiynau a ddefnyddir mewn perthynas â chwynion penodol.

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 21:

> *"Rhaid i Aelodau gydweithredu â Chomisiynydd Safonau y Senedd wrth ystyried cwyn ac unrhyw ystyriaeth ddilynol o'r gŵyn gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd."*.[50]

Ni chaniateir, er enghraifft, i Aelod wrthod cais anffurfiol am gyfweliad â Chomisiynydd Safonau'r Senedd, gofyn i rywun eraill beidio â chydweithredu ag ymchwiliad, dinistrio neu wrthod darparu papurau, negeseuon e-bost, neu unrhyw ddogfennaeth arall y mae'r Comisiynydd yn gofyn i'r Aelod eu darparu.

Yn nodedig, mae adrannau 11, 12 a 15 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 yn rhoi pwerau i Gomisiynydd Safonau'r Senedd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un fynychu gerbron y Comisiynydd i roi tystiolaeth, neu i gyflwyno dogfennau (mewn unrhyw ffurf) sy'n berthnasol i ymchwiliad. Gall Comisiynydd Safonau'r Senedd orfodi'r pwerau hyn drwy hysbysiad ffurfiol (gan gynnwys hysbysiad i Aelod). Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad o'r fath heb esgus rhesymol yn cyfrif fel trosedd y gellid ei chosbi â chyfnod o hyd at chwe mis yn y carchar, neu ddirwy lefel 5 (diderfyn), neu'r ddau.

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 23:

> *"Ni chaiff Aelodau ddatgelu manylion mewn perthynas ag:*

[49] Diweddarwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2013.
[50] Y Cod Ymddygiad, Para 12

*iunrhyw ystyriaeth o gŵyn gan Gomisiynydd Safonau y Senedd ac eithrio pan gânt eu hawdurdodi i wneud hynny, yn ôl y gyfraith, gan Gomisiynydd Safonau y Senedd neu awdurdod ymchwilio arall, nes bod naill ai Comisiynydd Safonau y Senedd, neu Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd (os anfonir y gŵyn at y Pwyllgor) wedi dod â'r mater i ben. Na*

*ii trafodion Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd mewn perthynas â chwyn, oni bai bod y gyfraith neu'r Pwyllgor wedi awdurdodi gwneud hynny, nes bod trafodaethau'r Pwyllgor wedi dod i ben neu fod adroddiad y Pwyllgor wedi'i gyhoeddi".*[51]

Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw gyfrif o gyfweliadau y gallent fod wedi'u cael gyda Chomisiynydd Safonau'r Senedd, unrhyw fanylion yn adroddiad y Comisiynydd, unrhyw gyfrif o roi tystiolaeth i Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd, ac ati.

Mae'r rheol hon ond yn berthnasol tra bod cwyn wrthi'n cael ei hystyried. Unwaith y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud naill ai gan y Comisiynydd, neu'r Pwyllgor yn dibynnu a yw'n cael ei gyfeirio at y Pwyllgor, gall Aelodau ddatgelu gwybodaeth yn ôl yr angen, gan fod yn ymwybodol o hawliau achwynydd i breifatrwydd. Yn ymarferol, gallai hyn olygu peidio â siarad yn benodol am gwynion oni bai gofynnir yn benodol amdanynt.

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 24:

*"Ni chaiff Aelodau lobïo aelod o Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd, na Chomisiynydd Safonau'r Senedd, na'u staff, mewn ffordd y cynllunnir neu y bwriedir iddi ddylanwadu'n amhriodol ar ei ystyriaeth ynghylch p'un a dorrwyd y Cod Ymddygiad ai peidio, neu mewn perthynas â gosod cosb."*[52]

Mae hyn yn cynnwys lobïo uniongyrchol drwy sgyrsiau, negeseuon e-bost, ac ati. Gallai hefyd gynnwys lobïo anuniongyrchol - er enghraifft, gwneud sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol neu gyfryngau'r brif ffrwd gyda'r bwriad o ddylanwadu ar ystyriaeth o'r fath.

Mae'r Cod yn nodi yn Rheol 25:

[51] Y Cod Ymddygiad, Para 12
[52] Y Cod Ymddygiad, Para 12

> *"Ni chaiff Aelodau geisio dylanwadu, annog, cymell na cheisio cymell, person sy'n gwneud cwyn mewn ymchwiliad i dynnu'r cwyn yn ôl neu newid ei gŵyn, neu unrhyw dyst neu berson arall sy'n cymryd rhan mewn cwyn i dynnu tystiolaeth yn ôl neu newid ei dystiolaeth."*[53]

Mae adran 15(1)(d) o'r Mesur yn ei gwneud yn drosedd i berson newid, atal, cuddio neu ddinistrio'n fwriadol unrhyw ddogfen y bu'n ofynnol iddynt ei chyflwyno i'r Comisiynydd Safonau. Mae'r gofynion yn berthnasol i'r rheol hon. Mae'r term dogfen yn cyfeirio at unrhyw beth y gellir ei ystyried yn dystiolaeth i gefnogi cwyn e.e. negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol/negeseuon e-bost

Ar y cyd â Rheol 19, mae hyn hefyd yn atal Aelod rhag ceisio gwneud hynny drwy ei staff.

[53] Y Cod Ymddygiad, Para 12